

202- Rhif (Cy.)

202- No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Ffordd Osgoi Caernarfon a
Bontnewydd, Gwynedd) (Terfyn
Cyflymder 40 mya, Dileu
Cyfyngiadau a Gwahardd
Goddiweddyd) 202-

The A487 Trunk Road (Caernarfon
and Bontnewydd Bypass,
Gwynedd) (40 mph Speed Limit,
Derestriction and Prohibition of
Overtaking) Order 2022

Gwnaed 15 Chwefror 2022
Yn dod i rym 18 Chwefror 2022

Made 15 February 2022
Coming into force 18 February 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a) a (2), 82(2), 83(1), 1(1), 2(1), 2, a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the of the A487 trunk road and in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a) and (2), 82(2), 83(1), 1(1), 2(1), 2, and 4(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of North Wales Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 mya, Dileu Cyfyngiadau a Gwahardd Goddiweddyd) 2022 a daw i rym ar 18 Chwefror 2022.

Title and Commencement

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Caernarfon and Bontnewydd Bypass, Gwynedd) (40 mph Speed Limit, Derestriction and Prohibition of Overtaking) Order 2022 and it comes into force on 18 February 2022.

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 1990/1656, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/802 (Cy. 175). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

- (1) 1984 c. 27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) S.I. 1990/1656, as amended by S.I. 2020/802 (W.175). By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

Gwahardd Goddiweddyd

4. Ni chaiff neb ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd y cyfeirir ato yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

Cyfarwyddyd

5. Cyfarwyddir y bydd y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director; and

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road;

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

Prohibition of Overtaking

4. No person may, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road referred to in article 2 to this Order.

Direction

5. It is directed that the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order shall cease to be a restricted road for the purposes of section 81 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 15 Chwefror 2022



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated 15 February 2022



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1 Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn o ffyrdd ymuno ag ymadael braich ogleddol yr A487 wrth Gylchfan y Goat o'i llinell ildio wrth y system gylchu hyd at bwynt 41.2 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan y Goat.

Y darn o ffyrdd ymuno ac ymadael braich ddeheuol yr A487 wrth Gylchfan y Goat o bwynt 64.5 o fetrau i gyfeiriad y gogledd o ganolbwynt y groesfan a reolir hyd at bwynt 120 o fetrau i gyfeiriad y de o ganolbwynt y groesfan a reolir.

Y darn o gerbyttyrdd tua'r gogledd a thua'r de cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 56 o fetrau i gyfeiriad y de-orllewin o Gylchfan Meifod hyd at bwynt 55 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Meifod gan gynnwys system gylchu Cylchfan Meifod.

Y darn o gerbyttyrdd gogledd a thua'r de cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 54 o fetrau i gyfeiriad y de o ganolbwynt Cylchfan Cibyn hyd at bwynt 55 o fesuryddion i gyfeiriad y gogledd o ganolbwynt Cylchfan Cibyn, gan gynnwys system gylchu'r gylchfan.

ATODLEN 2 Gwahardd Goddiweddyd

Y darn o gerbyttyrdd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan y Goat a Chylchfan Meifod sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r gogledd o ganolbwynt y danffordd yng Nglan Rhyd hyd at bwynt 100 metr i'r gogledd o linell ganol y danffordd yn Fferm Dinas.

Y darn o gerbyttyrdd tua'r de cefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan y Goat a Chylchfan Meifod sy'n ymestyn o bwynt 84 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r danffordd wrth y Drosbont Teithio Llesol hyd at

SCHEDULE 1 40 mph Speed Limit

The length of the A487 northerly arm entry and exit approaches to the Goat Roundabout from its give way line with the gyratory to a point 41.2 metres north of the centre point of the Goat Roundabout.

The length of the A487 southerly arm entry and exit approaches to the Goat Roundabout from a point 64.5 metres in a northerly direction from the centre point of the controlled crossing to a point 120 metres in a southerly direction from the centre point of the controlled crossing.

The length of the north and southbound carriageways of the A487 trunk road that extends from a point 56 metres in south westerly from the Meifod Roundabout to a point 55 metres in a north easterly direction from of the centre point of the Meifod Roundabout including the gyratory of the Meifod Roundabout.

The length of the north and southbound carriageways of the A487 trunk road that extends from a point 54 metres in a southerly direction from the centre point of the Cibyn Roundabout to a point 55 meters in a northerly direction from the centre point of the Cibyn Roundabout, including the roundabout gyratory.

SCHEDULE 2 Prohibition of Overtaking

The length of the northbound carriageway of the A487 trunk road between the Goat and Meifod Roundabouts that extends from a point 100 metres north of the centrepoint of the underpass at Glan Rhyd to a point 100 metres north of the centreline of the underpass at Dinas Farm.

The length of the southbound carriageway of the A487 trunk road between the Goat and Meifod

bwynt 150 o fetrau i'r gogledd o linell ganol y danffordd yn Fferm Dinas.

Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan Meifod a Chylchfan Cibyn sy'n ymestyn o bwynt 70 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt trosbont Ffordd Penybryn hyd at bwynt 377 o fetrau i'r de o linell ganol yr A4085 wrth drosbont yr A487.

Y darn o gerbyttffordd tua'r de cefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan Meifod a Chylchfan Cibyn sy'n ymestyn o bwynt 556 o fetrau i gyfeiriad y de-orllewin o ganol Cylchfan Cibyn hyd at bwynt 325 o fetrau i'r de o linell ganol yr A4085 wrth drosbont yr A487.

Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan Cibyn a Chylchfan Plas Menai sy'n ymestyn o bwynt 46 o fetrau i'r gogledd o linell ganol Cwlfert Afon Cadnant hyd at bwynt 91 o fetrau i'r de o ganol Cylchfan Plas Menai.

Y darn o gerbyttffordd tua'r de cefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan Cibyn a Chylchfan Plas Menai sy'n ymestyn o bwynt 255 o fetrau i'r de o linell ganol Cwlfert Afon Cadnant hyd at bwynt 134 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o ganol Cylchfan Cibyn.

ATODLEN 3 Cyfarwyddyd

Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd a thua'r de cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 41.2 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan y Goat hyd at bwynt 56 o fetrau i gyfeiriad y de-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Meifod.

Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd a thua'r de cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 55 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Meifod hyd at 53.7 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan Cibyn.

Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd a thua'r de cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 52 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Plas Menai ar ffordd osgoi y Felinheli yr A487, gan gynnwys system gylchu'r gylchfan hyd at bwynt 55 o fesuryddion i gyfeiriad y gogledd o ganolbwynt Cylchfan Cibyn.

Roundabouts that extends from a point 84 metres north west of the underpass at the Active Travel Overbridge to a point 150 metres north of the centreline of the underpass at Dinas Farm.

The length of the northbound carriageway of the A487 trunk road between the Meifod and Cibyn Roundabouts that extends from a point 70 metres north of the centrepoint of the Penybryn Road overbridge to a point 377 metres south of the centreline of the A4085 at the A487 overbridge.

The length of the southbound carriageway of the A487 trunk road between the Meifod and Cibyn Roundabouts that extends from a point 556 metres south westerly of the centre of the Cibyn Roundabout to a point 325 metres south of the centreline of the A4085 at the A487 overbridge.

The length of the northbound carriageway of the A487 trunk road between the Cibyn and Plas Menai Roundabouts that extends from a point 46 metres north of the centreline of the Cadnant River Culvert to a point 91 metres south of the centre of the Plas Menai Roundabout.

The length of the southbound carriageway of the A487 trunk road between the Cibyn and Plas Menai Roundabouts that extends from a point 255 metres south of the centreline of the Cadant River Culvert to a point 134 metres north easterly of the centre of the Cibyn Roundabout.

SCHEDULE 3 Direction

The length of the north and southbound carriageways of the A487 trunk road that extends from a point 41.2 metre north of the centre point of the Goat Roundabout to a point 56 metres south westerly of the centre point of the Meifod Roundabout.

The length of the north and southbound carriageways of the A487 trunk road that extends from a point 55 metres north easterly of centre point of the Meifod Roundabout to a point 53.7 metres south of the centre point of the Cibyn Roundabout.

The length of the north and southbound carriageways of the A487 trunk road that extends from a point 52 metres north easterly of the centre point of the Plas Menai Roundabout on the A487 Y Felinheli bypass, including the roundabout gyratory to a point 55 meters in a northerly direction from the centre point of the Cibyn roundabout.